# REVALIDATION




## Gwybodaeth i gadarnhawyr

# CYNNWYS


BETH MAE'R DDOGFEN HON YN EI WNEUD? .... 3
BETH YW AILDDILYSU? .... 6
RHESTR GYFEIRIO O'R GOFYNION A'R DYSTIOLAETH ATEGOL .... 7
PWY SY'N GALLU RHOI CADARNHAD? .... 8
Y BROSES GADARNHAU A'R HYN Y MAE ANGEN I CHI EI WNEUD .... 12
Y GOFYNION AILDDILYSU Y BYDD ANGEN I CHI EU HARCHWILIO .... 16
FFURFLEN CADARNHAD .... 21
ÔL-NODION .... 24


Cyhoeddwyd y ddogfen ddiweddaredig hon ym mis Mawrth 2019

# BETH MAE'R DDOGFEN HON YN EI WNEUD?

## Mae'r ddogfen hon ar gyfer pobl y gofynnwyd iddynt roi cadarnhad ynghylch ailddilysu nyrs, bydwraig neu gydymaith

Gofynnir i bob nyrs, bydwraig a chydymaith nyrsio ddatgan eu bod wedi cael cadarnhad gan unigolyn priodol i gefnogi eu cais ailddilysu. Mae cael cadarnhad yn golygu bod y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio wedi dangos i'w cadarnhawr eu bod wedi bodloni'r gofynion ailddilysu, sy'n rhan allweddol o'r broses ailddilysu. Mae'r ddogfen hon yn nodi manylion yr hyn y bydd angen i chi ei wneud os gofynnir i chi gyflawni rôl y cadarnhawr.

Yn ogystal, hoffem ddiolch i chi am gytuno ymgymryd â'r rôl pwysig hwn yn y broses ailddilysu.

Gellir gweld manylion llawn ynghylch y gofynion ailddilysu, tystiolaeth, y broses ac amserlenni ar gyfer ailddilysu yn yr arweiniad ar gyfer nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio. Gweler *Sut i ddilysu gyda CNB* trwy droi at **revalidation.nmc.org.uk/download-resources/guidance-and-information**.

## Am CNB

Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn bodoli i ddiogelu'r cyhoedd. Rydym yn gwneud hyn trwy sicrhau mai dim ond y rhai sy'n bodloni ein gofynion a ganiateir i weithio fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio cofrestredig yn y DU.

Byddwn yn gweithredu os mynegir pryderon ynghylch a yw nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio cofrestredig yn addas i wneud eu gwaith.



# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn darparu manylion ynghylch diben ailddilysu a chadarnhau.  Rydym yn trafod rôl y cadarnhawr yn y broses hon hefyd, yn ogystal â'r sawl sy'n gallu cyflawni rôl y cadarnhawr.

Mae'n cynnwys rhestr gyfeirio o'r gofynion ailddilysu ar gyfer nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio, ynghyd â'r dystiolaeth ategol y bydd angen i chi gadarnhau eich bod wedi ei gweld ar gyfer pob gofyniad. Ar dudalennau 16-20, rydym yn nodi manylion pob gofyniad. Ar ôl pob gofyniad, rydym yn cynnig arweiniad am yr hyn y bydd angen i chi ei archwilio fel cadarnhawr.

# Sut y bydd CNB yn defnyddio eich gwybodaeth

Bydd CNB yn trin yr holl wybodaeth a ddarparir gennych chi wrth i chi gyflawni rôl y cadarnhawr at ddibenion ailddilysu yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 bob amser. Bydd CNB yn prosesu eich data personol at ddibenion gweinyddu ac asesu'r cais ailddilysu yr ydych yn cyflawni rôl y cadarnhawr ar ei gyfer, ynghyd ag unrhyw ddilysu dilynol o'r cais hwnnw. Yn ogystal, efallai y bydd CNB yn defnyddio'r wybodaeth a geir trwy'r broses ailddilysu at ddibenion ymchwil ac er mwyn cynnal a gwella ei systemau a'i brosesau mewnol.

Gellir gweld manylion ein polisi diogelu data yn ein hysbysiad preifatrwydd trwy droi at: **www.nmc.org.uk/contact-us/data-protection/privacy-notice**



# Gweithredu mewn ffordd onest a didwyll

Disgwylir i gadarnhawyr weithredu mewn ffordd onest a didwyll. Nid ydym yn bwriadu cymryd camau yn erbyn cadarnhawyr sy'n darparu gwybodaeth anghywir trwy amryfusedd.

Disgwyliwn i chi lynu at yr amodau er mwyn gweithredu fel cadarnhawr a nodir yn yr arweiniad hwn, er enghraifft osgoi gwrthdaro rhwng buddiannau. Os ydych yn nyrs, yn fydwraig neu'n gydymaith nyrsio cofrestredig, dylech fod yn ymwybodol o'r ffaith, os bydd rheswm dros amau nad ydych chi wedi bodloni'r amodau hyn, a/neu os ydych chi wedi gwneud datganiad anwir wrth i chi gyflawni rôl cadarnhawr yn fwriadol, byddwn yn ymchwilio i hyn. Gellir defnyddio gwybodaeth a ddarparwyd gennych chi i ymchwilio i unrhyw achos honedig o dorri amodau'r Cod ac at ddibenion unrhyw achosion addasrwydd i wneud gwaith dilynol.

Os ceir rheswm dros gredu bod y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio yr ydych chi wedi rhoi cadarnhad ar eu cyfer wedi gwneud datganiad anwir yn fwriadol yn eu cais ailddilysu, gellir defnyddio gwybodaeth a ddarparwyd gennych chi mewn ffordd onest a didwyll fel cadarnhawr er mwyn ymchwilio i unrhyw achos honedig o dorri amodau'r Cod ac at ddibenion unrhyw achosion addasrwydd i wneud gwaith dilynol yn erbyn y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio.

*Mae Y Cod: Safonau arfer ac ymddygiad proffesiynol ar gyfer nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio* yn cyflwyno'r safonau proffesiynol y mae'n rhaid i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio eu cynnal er mwyn cofrestru i weithio yn y DU **www.nmc.org.uk/code**.

# Sut i gysylltu â CNB

Am ragor o wybodaeth, gweler yr adran ynghylch ailddilysu ar wefan CNB, sef **revalidation.nmc.org.uk**. Os nad ydych yn gallu dod o hyd i'r wybodaeth y mae ei hangen arnoch ac os bydd gofyn i chi gael help pellach, gallwch anfon e-bost atom, **revalidation.escalation@nmc-org.uk.**

Os ydych yn dymuno gwneud cwyn neu ddarparu adborth am safon ein gwasanaeth, trowch at dudalennau 'Cysylltu â ni' ar ein gwefan.

# Deall termau allweddol

1. **Y broses gofrestru:** Bob tair blynedd, o'r adeg y bydd nyrs, bydwraig a chydymaith nyrsio yn ymuno (neu'n ail-ymuno) â'r gofrestr, bydd angen iddynt adnewyddu eu cofrestriad trwy ailddilysu. Bob blwyddyn, bydd angen iddynt gynnal eu cofrestriad hefyd trwy dalu ffi gofrestru flynyddol. Os na fyddant yn cwblhau'r prosesau hyn mewn pryd, bydd eu cofrestriad yn dod i ben.
2. **Dyddiad dod i ben y ffi:** Y dyddiad cau er mwyn i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio dalu eu ffi gofrestru flynyddol er mwyn cynnal eu cofrestriad.
3. **Dyddiad gwneud cais i ailddilysu:** Y dyddiad cau er mwyn i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio gyflwyno'u cais i ailddilysu. Hwn yw diwrnod cyntaf y mis pan fydd eu cofrestriad yn dod i ben, felly os mai 30 Ebrill yw eu dyddiad adnewyddu, eu dyddiad gwneud cais i ailddilysu fydd 1 Ebrill.
4. **Dyddiad adnewyddu**: Y dyddiad pan fydd cofrestriad nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio yn cael ei adnewyddu os byddant wedi cwblhau eu cais ailddilysu yn llwyddiannus. Hwn yw diwrnod olaf y mis pan fydd eu cofrestriad yn dod i ben.
5. **Dilysu:** Y broses o archwilio cais ailddilysu nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio. Bob blwyddyn, byddwn yn dewis sampl o geisiadau ailddilysu ac yn gofyn am wybodaeth bellach at ddibenion dilysu gan yr unigolyn. Byddwn yn sicrhau eu bod wedi bodloni'r gofynion ailddilysu. Gellir gweld gwybodaeth bellach yn ein taflen arweiniad trwy droi at **revalidation.nmc.org.uk/verification.**

# BETH YW AILDDILYSU?

Ailddilysu yw'r broses sy'n caniatáu i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio gynnal eu cofrestriad gyda CNB.

Fel rhan o'r broses hon, bydd angen i bob nyrs, bydwraig a chydymaith nyrsio fodloni amrediad o ofynion a gynlluniwyd i ddangos eu bod yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf yn y maes a'u bod yn cynnal eu gallu i wneud gwaith diogel ac effeithiol mewn ffordd weithredol.

Nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio sy'n gyfrifol am gwblhau'r broses ailddilysu. Nhw yw perchnogion eu proses ailddilysu.

Nid ffordd newydd o fynegi pryderon ynghylch addasrwydd i wneud gwaith yw ailddilysu. Nid proses er mwyn i gadarnhawyr farnu a yw nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio yn addas i wneud gwaith neu asesiad yn erbyn gofynion eu cyflogaeth bresennol neu eu cyn gyflogaeth yw ailddilysu. Dylid mynegi pryder am addasrwydd nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio i wneud eu gwaith yn ddi-oed trwy ein gweithdrefnau addasrwydd i wneud gwaith. Gweler adran '*Pryderon addasrwydd i wneud gwaith*' y ddogfen arweiniad hon.

## Diben ailddilysu

Diben ailddilysu yw gwella'r gweithgarwch i ddiogelu'r cyhoedd, trwy sicrhau bod nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn dangos eu gallu parhaus i wneud gwaith diogel ac effeithiol trwy gydol eu gyrfa.

Un o brif gryfderau ailddilysu yw ei fod yn annog nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio i ddefnyddio'r Cod yn ystod eu gwaith o ddydd i ddydd a'u datblygiad personol. Mae'r Cod yn cyflwyno'r safonau proffesiynol y mae'n rhaid i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio eu cynnal er mwyn bod yn gofrestredig i wneud eu gwaith yn y DU.

Mae ailddilysu yn cynnwys gofynion sy'n annog nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio i geisio adborth gan gleifion, defnyddwyr gwasanaeth a chydweithwyr, ystyried rôl y Cod yn eu gwaith trwy gael trafodaeth fyfyriol gyda nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio arall a cheisio cadarnhad eu bod wedi bodloni'r gofynion hynny gan unigolyn priodol, sy'n bwysig.

Bydd yn annog ymgysylltu â thrafodaethau a rhwydweithiau proffesiynol ac yn lleihau arwahanrwydd proffesiynol.

Bydd ailddilysu yn gwella gweithgarwch ymgysylltu cyflogwyr trwy gynyddu eu hymwybyddiaeth o'n safonau rheoliadol, annog trafodaethau cynnar ynghylch pryderon am safonau gwaith cyn iddynt waethygu neu cyn y bydd gofyn eu cyfeirio atom ni a bydd yn cynyddu mynediad i a chyfranogiad mewn gweithgarwch arfarnu a datblygiad proffesiynol.

Trwy gyfrwng ailddilysu, rydym yn dymuno creu perthynas ryngweithiol ac ar hyd eu gyrfaoedd gyda'n nyrsys, ein bydwragedd a'n cymdeithion nyrsio, gan gynyddu ein dealltwriaeth o'u gwaith a'r boblogaeth nyrsio, bydwreigiaeth a chymdeithion nyrsio yn ehangach.

## Diben cadarnhad

Mae cael cadarnhad gan unigolyn priodol yn cynnig sicrwydd ychwanegol bod nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio wedi bodloni'r gofynion ailddilysu.

Yn ogystal, mae cadarnhad yn cynyddu proffesiynoldeb trwy sicrhau bod nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn fwy atebol dros eu gwaith a'u gwelliant. Mae'n annog y nyrsys, y bydwragedd a'r cymdeithion nyrsio hynny nad ydynt yn gweithio gyda chydweithwyr eraill i drafod eu datblygiad, eu hadborth, eu myfyrdodau a'u hailddilysu gydag unigolyn arall.

Os ydych chi'n rheolwr llinell, bydd yn eich annog i ystyried ac i drafod yn rheolaidd sut y mae'ch nyrsys, eich bydwragedd a'ch cymdeithion nyrsio yn ymgysylltu â gweithgareddau datblygu proffesiynol er mwyn cynnal a datblygu eu cymhwystra a gwella eu harfer.

# RHESTR GYFEIRIO O'R O'R GOFYNION A'R DYSTIOLAETH ATEGOL

Isod, gweler trosolwg o'r gofynion y bydd angen i chi eu harchwilio fel cadarnhawr. Bydd angen bod y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio fod wedi bodloni'r gofynion hyn yn ystod y dair blynedd ers yr adnewyddwyd eu cofrestriad y tro diwethaf neu ers iddynt ymuno â'r gofrestr.

> Yn ogystal, rhaid i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio wneud datganiadau am eu hiechyd a'u cymeriad, a threfniant indemniad proffesiynol, fel rhan o'u cais, ond nid oes gofyn i chi gadarnhau'r rhain.

| Gofynion | Yr hyn y bydd angen i chi ei weld |
|---|---|
| **450 awr o waith ar gyfer pob cofrestriad**<br>**Mae cofrestriad deuol (e.e. nyrs a bydwraig) yn gofyn am 900 awr o waith[1]** | Tystiolaeth ysgrifenedig sy'n eich bodloni chi bod y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio wedi gweithio nifer isaf yr oriau sy'n ofynnol er mwyn iddynt adnewyddu eu cofrestriad. |
| **35 awr o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus** | Tystiolaeth ysgrifenedig sy'n eich bodloni chi bod y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio wedi ymgymryd â 35 awr o DPP sy'n berthnasol i'w gwaith fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio.<br>Tystiolaeth bod o leiaf 20 o'r 35 awr yn cynnwys dysgu cyfranogol sy'n berthnasol i'w gwaith fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio. |
| **Pum darn o adborth sy'n ymwneud â'u gwaith** | Tystysgrif ysgrifenedig neu ar lafar sy'n eich bodloni chi bod y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio wedi sicrhau pum darn o adborth sy'n ymwneud â'u gwaith. |
| **Pum adroddiad myfyriol ysgrifenedig** | Pum adroddiad myfyriol ysgrifenedig am eu DPP a/neu adborth sy'n ymwneud â'u gwaith a/neu ddigwyddiad neu brofiad yn eu gwaith a sut y mae hyn yn ymwneud â'r Cod. Rhaid ysgrifennu pob adroddiad ar ffurflen adroddiad myfyriol CNB. |
| **Trafodaeth fyfyriol** | Ffurflen CNB wedi'i llenwi a'i llofnodi sy'n cofnodi bod y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio wedi trafod eu hadroddiadau myfyriol gyda nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio arall sydd wedi cofrestru gyda CNB (neu rydych chi'n nyrs, yn fydwraig neu'n gydymaith nyrsio eich hun, ac wedi llenwi a llofnodi'r ffurflen). |

# PWY SY'N GALLU RHOI CADARNHAD

## Cadarnhawr priodol

### Rheolwr llinell

Disgwyliwn i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio geisio cadarnhad gan unigolyn priodol. Argymhellwn yn gryf eu bod yn sicrhau cadarnhad gan eu rheolwr llinell pryd bynnag y bo modd. Os mai chi yw rheolwr llinell y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio, mae'n debygol mai chi yw'r unigolyn mwyaf priodol i roi eu cadarnhad iddynt.

Yn rhan fwyaf yr achosion, bydd y rheolwr llinell wedi cofrestru gyda CNB. Fodd bynnag, os nad ydych yn nyrs, yn fydwraig neu'n gydymaith nyrsio sydd wedi cofrestru gyda CNB, bydd angen i'r nyrs, y fydwraig neu'r gydymaith nyrsio fod wedi cael eu trafodaeth fyfyriol gydag unigolyn arall sydd wedi cofrestru gyda CNB cyn ceisio cadarnhad gennych chi.

### Nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio sydd wedi cofrestru gyda CNB

Nid oes gan bawb ar ein cofrestr reolwr llinell. Bydd angen i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio nad oes ganddynt reolwr llinell benderfynu pwy sydd yn y sefyllfa orau i roi eu cadarnhad iddynt. Pryd bynnag y bo modd, argymhellwn eu bod yn sicrhau eu cadarnhad gan nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio arall sydd wedi cofrestru gyda CNB. Felly, hyd yn oed os nad chi yw eu rheolwr llinell, efallai mai chi yw'r unigolyn mwyaf priodol o hyd i roi eu cadarnhad iddynt. Bydd o gymorth os byddwch wedi gweithio gyda nhw neu os yw cwmpas eich gwaith yn debyg i'w un nhw, ond nid yw hyn yn hanfodol.

Os ydych yn darparu cadarnhad ar y sail eich bod yn nyrs, yn fydwraig neu'n gydymaith nyrsio sydd wedi cofrestru gyda CNB, rhaid bod gennych chi gofrestriad gweithredol. Ni allwch fod wedi ymddeol neu heb fod wedi cofrestru mwyach, neu'n destun gorchymyn atal dros dro, dileu neu ddiswyddo ar yr adeg pan roddir y cadarnhad. Os ydych yn anghymwys i gyflawni rôl y cadarnhawr am unrhyw reswm, gallai'r cais ailddilysu yr ydych yn ei gadarnhau gael ei wrthod ac efallai y bydd yr ymgeisydd yn dod yn ymwybodol o'r ffaith eich bod yn anghymwys

### Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol rheoledig

Efallai na fydd gan rai pobl ar ein cofrestr reolwr llinell neu nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio arall sydd wedi cofrestru gyda CNB i roi eu cadarnhad iddynt. Gall y nyrsys, y bydwragedd a'r cymdeithion nyrsio hyn sicrhau eu cadarnhad gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall y maent yn gweithio gyda nhw ac sy'n cael eu rheoleiddio yn y DU, megis meddyg, deintydd neu fferyllydd.

Os ydych yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n cael eich rheoleiddio yn y DU ac rydych chi'n gweithio gyda'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio, efallai mai chi fydd yr unigolyn mwyaf priodol i ddarparu eu cadarnhad. Bydd angen i chi ddarparu manylion eich proffesiwn a'ch rhif cofrestru (mewn rhai proffesiynau, efallai y gelwir hwn yn rhif adnabod cofrestru neu'n gyfeirnod cofrestru) ar gyfer eich corff rheoliadol (gweler y ffurflen Cadarnhad ar dudalennau 21-23).

Gan nad ydych chi wedi cofrestru gyda CNB, bydd angen bod y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio fod wedi cael eu trafodaeth fyfyriol gydag unigolyn arall ar gofrestr CNB cyn ceisio cadarnhad gennych chi.



Efallai na fydd gan nifer fach iawn o bobl ar ein cofrestr reolwr llinell na nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio sydd wedi cofrestru gyda CNB neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall sy'n cael eu rheoleiddio yn y DU, y maent yn gweithio gyda nhw.

**Nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio sy'n gweithio yn y DU:** Os na all y nyrsys, y bydwragedd a'r cymdeithion nyrsio hyn sicrhau cadarnhad gan ddefnyddio unrhyw un o'r tri dewis uchod, argymhellwn eu bod yn sicrhau cadarnhad gan weithiwr proffesiynol arall. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd hyn yn digwydd. Os ydych chi'n un o'r gweithwyr proffesiynol hynny a gofynnwyd i chi ddarparu cadarnhad ar gyfer nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio, dylech gadarnhau gyda'r unigolyn na allant gael cadarnhad trwy ddefnyddio unrhyw un o'r tri dewis uchod.

**Nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio sy'n gweithio mewn gwlad dramor:** Argymhellwn bod y nyrsys, y bydwragedd a'r cymdeithion nyrsio hyn yn sicrhau cadarnhad gan eu rheolwr llinell lle y maent yn gweithio. Os nad oes ganddynt reolwr llinell, argymhellwn eu bod yn cael cadarnhad gan unigolyn arall ar gofrestr CNB neu gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol rheoledig arall lle y maent yn gweithio.

Am wybodaeth bellach am y sawl sy'n gallu cyflawni rôl cadarnhawr yn y sefyllfa hon, gweler ein hofferyn cadarnhad ar-lein.

# Nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio y mae ganddynt fwy nag un rheolwr llinell

Bydd gan rai nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio fwy nag un cyflogwr neu byddant yn cyflawni mwy nag un rôl. Mae angen i'r unigolion hyn sicrhau un cadarnhad ar gyfer eu gwaith cyfan. Dan yr amgylchiadau hyn, bydd angen iddynt benderfynu pa unigolyn yw'r un mwyaf priodol i ddarparu eu cadarnhad.

Yn gyffredinol, argymhellwn eu bod yn cael eu trafodaeth ailddilysu ac yn sicrhau eu cadarnhad trwy'r sefydliad lle y maent yn cyflawni rhan fwyaf eu gwaith. Efallai y byddant yn dymuno cael trafodaeth ym mhob sefydliad y maent yn gweithio ynddo, a dwyn allbynnau'r trafodaethau hynny i'w trafodaeth ynghylch cadarnhad.

Felly, efallai mai chi yw'r unigolyn mwyaf priodol i ddarparu cadarnhad, hyd yn oed os nad yw'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio yn cyflawni eu holl waith yn eich sefydliad.

# Cadarnhad i gofrestreion deuol

Mae pob unigolyn sydd wedi cofrestru gyda CNB yn nyrs, yn fydwraig, yn gydymaith nyrsio neu'n gyfuniad o'r rhain. Cyfeiriwn at y rhai sydd wedi cofrestru fel nyrs a bydwraig neu fel cydymaith nyrsio a nyrs fel cofrestreion deuol. Bydd angen i gofrestreion deuol gwblhau 450 awr o waith fesul cofrestriad (gweler ein taflen arweiniad ynghylch Cofrestriadau lluosog a chymwysterau ychwanegol).

Mae'r gofynion eraill ar gyfer ailddilysu yr un fath ar gyfer cofrestreion deuol ag y maent ar gyfer nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio sydd ag un cofrestriad yn unig. Dim ond sicrhau cyfanswm o bump darn o adborth sy'n ymwneud â'u gwaith ac ysgrifennu pum adroddiad myfyriol y bydd angen i gofrestreion deuol ei wneud, yn hytrach na deg. Fodd bynnag, dylent ystyried sut y gallent fodloni'r holl ofynion ailddilysu ar draws eu dau rôl. Er enghraifft, efallai y byddant yn dewis ysgrifennu tri adroddiad myfyriol ynghylch eu gwaith ym maes bydwreigiaeth, a dau adroddiad myfyriol sy'n ymwneud â'u gwaith nyrsio.

# Lefel y cynefindra gyda gwaith y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio

Mae angen i chi fod mewn sefyllfa i gadarnhau bod y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio wedi bodloni'r gofynion ailddilysu (gweler tudalennau 12-20). Rheolwr llinell y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio fydd rhan fwyaf y cadarnhawyr, a byddant yn gyfarwydd iawn gyda'u gwaith. Bydd cadarnhawyr eraill yn llai cyfarwydd gyda gwaith y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio y maent yn ei gadarnhau. Ym mhob achos, mae angen i chi fod mewn sefyllfa o fod yn gallu cadarnhau o hyd eu bod wedi bodloni'r gofynion. Fel isafswm, bydd angen i chi gael trafodaeth gyda'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio am eu waith a gweld tystiolaeth sy'n dangos eu bod wedi bodloni'r holl ofynion ailddilysu y mae gofyn i chi eu harchwilio.

# Gwrthdaro rhwng buddiannau

Mae gwrthdaro rhwng buddiannau yn golygu sefyllfa y mae ganddi y potensial i danseilio natur ddiduedd a gwrthrychol gwneud penderfyniadau o fewn y broses ailddilysu. Gall gwrthdaro rhwng buddiannau godi pan gaiff barn unigolyn ei ddylanwadu mewn ffordd oddrychol trwy gael cyswllt gyda chydweithwyr oherwydd teyrngarwch i'r berthynas sydd rhyngddynt, yn hytrach na thrwy gyfrwng proses wrthrychol.

Gall gwrthdaro rhwng buddiannau ddigwydd oherwydd perthnasoedd personol neu fasnachol.

Mae angen i chi ystyried unrhyw berthynas bersonol neu fasnachol rhyngoch chi a'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio. Ni chewch ddarparu cadarnhad ar gyfer aelod o'r teulu neu unigolyn y mae gennych chi berthynas bersonol agos gyda nhw, megis ffrind agos, er mwyn cyflawni unrhyw rai o'r rolau hyn.

Os na allwch roi cadarnhad mewn ffordd wrthrychol, dylech drafod hyn gyda'r unigolyn. Bydd angen i chi a'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio fod yn gyfrifol am benderfynu a oes unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau neu dybiaeth o duedd er mwyn sicrhau bod y broses gadarnhau yn parhau i fod yn wrthrychol a bod ganddi hygrededd. Os ydych o'r farn y gallai fod perygl y gallai fod gwrthdaro rhwng buddiannau, dylech ddefnyddio gwahanol unigolyn fel eich cadarnhawr.

# Y BROSES GADARNHAU A'R HYN Y MAE ANGEN I CHI EI WNEUD

## Amseriadau ailddilysu a chadarnhau

Bob tair blynedd, gofynnir i bob nyrs, bydwraig a chydymaith nyrsio wneud cais i ailddilysu gan ddefnyddio CNB Ar-lein[1] fel ffordd o adnewyddu eu cofrestriad gyda CNB.

Disgwyliwn i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio sicrhau cadarnhad yn ystod 12 mis olaf eu cyfnod adnewyddu tair blynedd. Diben hyn yw sicrhau bod y cadarnhad wedi cael ei roi yn ddiweddar. Os sicrhawyd y cadarnhad yn gynharach na hyn, efallai y byddwn yn gofyn iddynt esbonio pam.

Bydd gan y nyrs, y fydwraig a'r cydymaith nyrsio 60 diwrnod cyn eu dyddiad gwneud cais i ailddilysu i gyflwyno eu cais ailddilysu trwy eu cyfrif CNB Ar-lein. Argymhellwn yn gryf eu bod yn cael eu trafodaeth ynghylch cadarnhad ymhell cyn hyn er mwyn iddynt gael.



# Adolygu tystiolaeth y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio

Mae angen i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio gasglu tystiolaeth a chynnal cofnodion er mwyn dangos i gadarnhawr eu bod wedi bodloni'r gofynion ailddilysu a restrir yn y rhestr gyfeirio ar dudalen 7.

Efallai y byddwch yn dymuno gofyn am gael gweld y dystiolaeth cyn y drafodaeth, neu ei hadolygu yn ystod y drafodaeth[3].

Argymhellwn yn gryf bod nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn cadw tystiolaeth o'r ffaith eu bod wedi bodloni'r gofynion hyn mewn portffolio. Os ydynt eisoes yn cadw portffolio proffesiynol, gall tystiolaeth ailddilysu ffurfio unrhyw ran o'r portffolio hwnnw. Nid oes angen iddynt gynnal portffolio ar wahân at ddibenion ailddilysu neu ddefnyddio e-bortffolio o reidrwydd

Disgwyliwn i unrhyw dystiolaeth gael ei gadw yn Saesneg ac mae'n rhaid i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio gyflwyno eu cais ailddilysu, ynghyd ag unrhyw wybodaeth ddilysu ddilynol, yn Saesneg. Mae'n Cynllun Iaith Gymraeg yn nodi sut y byddwn yn gweithredu egwyddor triniaeth gyfartal ar gyfer yr iaith Gymraeg mewn agweddau ar ein busnes, gan gynnwys darparu a chynllunio gwasanaeth a chyfathrebu. Gellir gweld ein Cynllun Iaith Gymraeg trwy droi at **www.nmc.org.uk/about-us/our-equality-and-diversity-commitments/welsh-language-scheme.**

Mae pobl ar ein cofrestr yn gweithio ar draws ystod eang o rolau, swyddogaethau a lleoliadau. Mae'r rhain yn cynnwys rolau ym maes gofal clinigol rheng flaen mewn lleoliadau aciwt a chymunedol, rolau ym maes addysg ac ymchwil nyrsio, bydwreigiaeth a gwaith cymdeithion nyrsio, rolau cynghori polisi a rolau rheoli ac arwain sy'n berthnasol i faes nyrsio, bydwreigiaeth neu waith cymdeithion nyrsio. Bydd y gweithgareddau y maent yn eu cyflawni er mwyn bodloni'r gofynion ailddilysu yn adlewyrchu cwmpas eu gwaith unigol fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio.

Nid oes angen i chi geisio gweithgarwch dilysu allan o'r wybodaeth yn y dystiolaeth a ddarparwyd i chi ym mhob un o'r gofynion. Er enghraifft, nid oes yn rhaid i chi gysylltu â darparwyr DPP er mwyn darganfod a yw'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio wedi mynychu neu wedi cwblhau eitem DPP benodol. Dylai'r holl wybodaeth y bydd ei hangen arnoch fod yn eu tystiolaeth ategol.

# Cael trafodaeth wyneb yn wyneb gyda'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio am eu hailddilysiad

Ar ôl i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio fodloni'r gofynion ailddilysu, bydd angen iddynt drafod eu hailddilysiad gyda chadarnhawr er mwyn dangos i chi sut y maent wedi bodloni'r gofynion y mae angen i chi, fel cadarnhawr, eu harchwilio.

Argymhellwn yn gryf, pryd bynnag y bo modd, bod y drafodaeth ynghylch rhoi cadarnhad yn rhan o'u harfarniad blynyddol. Os ydych yn rhoi cadarnhad fel rhan o arfarniad blynyddol, efallai y bydd o gymorth i chi gael trafodaeth ailddilysu gyda'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio yn ystod pob arfarniad blynyddol. Bydd hyn yn eu helpu i'ch diweddaru chi am eu hailddilysiad. Fodd bynnag, nid yw hyn yn hanfodol.

Os na fydd trafodaeth wyneb yn wyneb yn bosibl, argymhellwn eich bod yn defnyddio cyfleuster fideogynadledda.

# Penderfynu a yw'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio wedi bodloni'r gofynion ailddilysu

Fel cadarnhawr, ni ofynnir i chi ffurfio barn ynghylch ansawdd cyffredinol gwaith y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio. Yn ogystal, nid ydych yn barnu ansawdd yr adroddiadau myfyriol neu'r adborth sy'n ymwneud â'u gwaith; yn hytrach, rydych chi'n archwilio bod y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio wedi bodloni'r gofynion ailddilysu gorfodol a nodir yn y ddogfen hon.

Er enghraifft, rhaid bod eu DPP yn ymwneud â chwmpas eu gwaith fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio, a dylai eu hadroddiadau myfyriol ysgrifenedig ddangos yr hyn y maent wedi'i ddysgu o'r gweithgarwch DPP, yr adborth, y digwyddiad neu'r profiad yn eu gwaith, sut y gwnaethant newid neu wella eu gwaith o ganlyniad, a sut y mae'n berthnasol i'r Cod.

Ailddilysu yw'r broses sy'n caniatáu i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio gynnal eu cofrestriad gyda CNB, felly byddwch yn gwneud penderfyniad ynghylch a ydynt wedi bodloni'r gofynion a nodir yn y ddogfen hon ac yn *Sut i ailddilysu gyda CNB*. Nid asesiad yn erbyn gofynion cyflogaeth bresennol neu gyn gyflogaeth yr unigolyn yw ailddilysu.

Ni chi sy'n penderfynu a ddylid ailddilysu nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio neu a ddylent barhau ar y gofrestr. Hwn yw ein rôl ni fel rheolydd.

# Pryderon ynghylch addasrwydd i wneud gwaith

Os bydd cadarnhawr, cyflogwr, nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio, neu unrhyw unigolyn arall, yn dod yn ymwybodol o bryder difrifol ynghylch addasrwydd nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio i wneud eu gwaith, dylent godi hyn yn ddi-oed trwy ein gweithdrefnau addasrwydd i wneud gwaith. Mae gan bawb ar ein cofrestr ddyletswydd broffesiynol i fynegi pryder ynghylch gwaith cofrestrai arall naill ai trwy eu cyflogwr neu'n uniongyrchol gyda ni. Ni ddylent aros nes bydd hi'n bryd i nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio adnewyddu trwy'r broses ailddilysu er mwyn codi pryder o'r fath ynghylch addasrwydd i wneud gwaith.

Nid yw ailddilysu yn creu ffordd newydd o fynegi pryder o'r fath ynghylch addasrwydd nyrs neu fydwraig i wneud eu gwaith, ac nid diben y cam cadarnhau yn y broses ailddilysu yw er mwyn i'r cadarnhawr ffurfio barn ynghylch a yw nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio yn addas i wneud gwaith, ond yn hytrach, cadarnhau cydymffurfiaeth gyda'r gofynion ailddilysu.

Er nad yw ailddilysu yn ffordd newydd o fynegi pryder ynghylch addasrwydd i wneud gwaith, os byddwch yn darganfod bod pryder addasrwydd i wneud gwaith yn codi yn ystod y broses gadarnhau, dylech godi hyn yn ddi-oed trwy ein gweithdrefnau addasrwydd i wneud gwaith a pheidio rhoi cadarnhad.

Os bydd nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio yn destun ymchwiliad gan CNB, gorchymyn amod(au) ar eu gwaith neu rybudd, mae gofyn iddynt adnewyddu eu cofrestriad o hyd, ar yr amod eu bod yn bodloni'r holl ofynion ailddilysu. Fodd bynnag, byddant yn parhau i fod yn destun prosesau addasrwydd i wneud gwaith CNB a chanlyniad y prosesau hynny.

Os bydd unigolyn ar ein cofrestr yn destun gweithdrefn ddisgyblu fewnol, byddant yn gallu gwneud cais i adnewyddu eu cofrestriad ar yr amod eu bod yn bodloni'r holl ofynion ailddilysu. Fodd bynnag, os bydd y weithdrefn ddisgyblu fewnol hon yn cynnwys pryderon am eu haddasrwydd i wneud gwaith, dylid codi'r rhain mewn ffordd briodol ar yr adeg honno. Ni fyddai hyn o fewn cwmpas y broses ailddilysu.

Am ragor o wybodaeth am ein prosesau addasrwydd i wneud gwaith, gweler: **www.nmc.org.uk/concerns-nurses-midwives-what-we-do-what-is-fitness-to-practise.** Gallwch ddarganfod sut i wneud cyfeiriad trwy droi at **www.nmc.org.uk/concerns-nurses-midwives.**

## Os bydd y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio wedi bodloni'r gofynion

Bydd angen i chi lenwi'r ffurflen cadarnhad (gweler tudalennau 21-23).

Bydd angen i chi ddarparu eich enw, eich Pin CNB neu'ch rhif cofrestru proffesiynol arall (pan fo hynny'n berthnasol), eich cyfeiriad e-bost, eich cyfeiriad proffesiynol gan gynnwys eich cod post a'ch rhif cyswllt.[4] Os nad chi yw rheolwr llinell y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio yr ydych yn darparu cadarnhad ar eu cyfer neu gofrestrai CNB, bydd angen i chi ddarparu manylion eich proffesiwn a'ch gweithgarwch rheoleiddio hefyd.

Gofynnwyd i chi ddarparu cadarnhad ar sail y dystiolaeth yr ydych chi wedi'i gweld, ac i weithredu mewn ffordd onest. Ni fyddwch yn gyfrifol os byddwch trwy amryfusedd yn darparu gwybodaeth y darganfyddir ei bod yn anghywir.

## Os na fydd y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio wedi bodloni'r gofynion

Os nad ydych yn siŵr a yw'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio wedi bodloni'r gofyniad (gofynion), bydd angen i chi eu cwestiynu, gan ddefnyddio'r arweiniad hwn fel deunydd cyfeirio. Cofiwch, nid ydych yn beirniadu ansawdd, rydych yn penderfynu a fodlonwyd y gofynion ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd i chi. Os ydych o'r farn nad ydynt wedi bodloni'r gofyniad (gofynion), bydd angen i chi esbonio i'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio pa ofyniad nad ydynt wedi darparu tystiolaeth ohono. Os bydd gennych chi unrhyw amheuaeth, ni ddylech roi cadarnhad.

Yna, gall y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio gael y cyfle i gwblhau'r gofynion yn llwyr a dod yn ôl atoch cyn y bydd gofyn cyflwyno eu cais ailddilysu.

Cynghorwn bod y drafodaeth ynghylch rhoi cadarnhad yn digwydd ymhell cyn y dyddiad pan fydd gofyn i'r unigolyn ailddilysu er mwyn caniatáu digon o amser iddynt gwblhau'r holl  ofynion yn llawn.

## Ar ôl i chi gwblhau'r cadarnhad

Efallai y bydd CNB yn cysylltu â chi ar ôl i chi lenwi'r ffurflen cadarnhad os bydd gofyn i ni gael gwybodaeth bellach fel rhan o'n proses ddilysu (gweler tudalen 21). Ar ôl i'ch nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio gyflwyno eu cais ailddilysu, byddwn yn gwneud penderfyniad am eu cais.

# Y GOFYNION AILDDILYSU Y BYDD ANGEN I CHI EU HARCHWILIO

## Oriau gwaith: y gofynion

Rhaid bod nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio wedi gweithio isafswm o oriau dros y dair blynedd ers yr adnewyddwyd eu cofrestriad y tro diwethaf neu ers iddynt ymuno â'r gofrestr.

| Cofrestru | Isafswm yr oriau gwaith sy'n ofynnol |
|---|---|
| Nyrs | Mae gofyn cael 450 o oriau gwaith |
| Bydwraig | Mae gofyn cael 450 o oriau gwaith |
| Cydymaith nyrsio | Mae gofyn cael 450 o oriau gwaith |
| Nyrs ac SCPHN | Mae gofyn cael 450 o oriau gwaith |
| Bydwraig ac SCPHN | Mae gofyn cael 450 o oriau gwaith |
| Nyrs a bydwraig (gan gynnwys Nyrs/SCPHN a Bydwraig/SCPHN)<br>Neu<br>Gydymaith nyrsio a nyrs | Mae gofyn cael 900 o oriau gwaith (gan gynnwys 450 awr ar gyfer nyrsio, 450 awr ar gyfer bydwreigiaeth) |

Os byddant wedi gweithio llai na nifer ofynnol yr oriau yn ystod y cyfnod o dair blynedd ers yr adnewyddwyd eu cofrestriad y tro diwethaf neu ers iddynt ymuno â'r gofrestr, rhaid iddynt gwblhau rhaglen dychwelyd i weithio briodol a gymeradwywyd gan CNB cyn dyddiad eu cais i adnewyddu eu cofrestriad.

Dim ond y gofyniad ynghylch yr oriau gwaith ar gyfer eu cofrestriad cychwynnol y bydd gofyn i nyrsys, bydwragedd neu gymdeithion nyrsio cofrestredig sy'n cael eu cynnwys mewn rhan arall o'r gofrestr[5] ers yr adnewyddwyd eu cofrestriad y tro diwethaf neu ers iddynt ymuno â'r gofrestr, eu bodloni. Bydd angen iddynt fodloni'r gofynion ynghylch oriau gwaith er mwyn cofrestru yn y ddwy ran yn ystod cyfnodau adnewyddu dilynol bob tair blynedd.

# Oriau gwaith: yr hyn y mae angen i chi ei archwilio

Dylech weld tystiolaeth ysgrifenedig sy'n eich bodloni chi bod y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio wedi cyflawni isafswm yr oriau gwaith sy'n ofynnol ar gyfer eu cofrestriad.

Gallai tystiolaeth gynnwys eu contract cyflogaeth (sy'n nodi'r oriau), taflenni amser, manylebau gwaith a phroffiliau rôl.

Rydym yn cydnabod bod nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn gweithio mewn amrywiaeth o rolau a lleoliadau.  Felly, ni chaiff oriau gwaith eu cyfyngu i waith clinigol ac mae'n cynnwys gwaith mewn rolau anghlinigol megis rheoli, polisi, ymchwil, addysg ac mae'n cynnwys gwaith am dâl a gwaith gwirfoddol ac yn achos nyrsys, gallai fod mewn gwahanol faes i'w maes cofrestru gwreiddiol.

Fodd bynnag, rhaid i'r oriau gwaith sy'n cael eu cyfrif fod yn berthnasol i gofrestriad nyrsio, bydwreigiaeth neu gymdeithion nyrsio er mwyn iddynt gael eu cyfrif tuag at yr isafswm o ran oriau er mwyn ailddilysu.

Ni fydd unrhyw waith a gyflawnwyd pan nad oedd y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio wedi cofrestru gyda CNB yn cyfrif tuag at yr isafswm er mwyn ailddilysu.

Rydym wedi darparu templed a allai fod o ddefnydd i'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio er mwyn cofnodi eu horiau gwaith. Mae hyn yn cynnwys lleoliad y gwaith, dyddiadau gweithio, cwmpas y gwaith, disgrifiad o'r gwaith a gyflawnwyd a nifer yr oriau.

Os na fydd yr unigolyn wedi gweithio isafswm yr oriau sy'n ofynnol ar gyfer eu cofrestriad, dylech deimlo'n fodlon eu bod wedi llwyddo mewn cwrs dychwelyd i'r gwaith a gymeradwywyd gan CNB. Bydd angen i chi sicrhau bod ganddynt gyfeirnod a ddarparwyd gan y brifysgol lle y buont yn cyflawni'r cwrs.

# Datblygiad proffesiynol parhaus: y gofynion

Rhaid bod nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio wedi cyflawni gwerth 35 awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) sy'n berthnasol i gwmpas eu gwaith fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio yn ystod y cyfnod o dair blynedd ers yr adnewyddwyd eu cofrestriad ddiwethaf neu ers iddynt ymuno â'r gofrestr.

O blith y 35 awr hynny o DPP, rhaid bod o leiaf 20 wedi cynnwys dysgu cyfranogol.

Rhaid i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio gadw cofnodion manwl o'r DPP y maent wedi ymgymryd ag ef. Rhaid i'r cofnodion hyn gynnwys:

- y dull DPP
- disgrifiad o'r pwnc a sut yr oedd yn ymwneud â'u gwaith
- y dyddiadau pan gyflawnwyd y gweithgarwch
- nifer yr oriau (gan gynnwys nifer yr oriau paratoi)
- adnabod rhan y Cod sydd fwyaf perthnasol i'r gweithgarwch, a
- thystiolaeth eu bod wedi cyflawni'r gweithgarwch DPP.

# Datblygiad proffesiynol parhaus: yr hyn y bydd angen i chi ei archwilio

Dylech weld tystiolaeth ysgrifenedig sy'n eich bodloni chi bod y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio wedi cyflawni o leiaf 35 awr o DPP.

Dylech weld tystiolaeth bod o leiaf 20 o'r 35 awr yn cynnwys dysgu cyfranogol. Mae dysgu cyfranogol yn golygu unrhyw weithgarwch dysgu lle'r oedd y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio wedi rhyngweithio'n bersonol gyda phobl arall. Mae gweithgareddau DPP yn cynnwys mwy na chyrsiau hyfforddiant. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys digwyddiadau dysgu, gweithdai a gweithgareddau adolygu cymheiriaid. Trowch at ein tudalen arweiniad ynghylch enghreifftiau o weithgareddau DPP.

Rhaid i'r holl oriau DPP fod yn berthnasol i gwmpas gwaith y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio.[7]

Fodd bynnag, ni ofynnir i chi farnu ansawdd y DPP a gyflawnwyd. Rydych chi'n penderfynu a fodlonwyd y gofyniad ynghylch DPP ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd i chi.

Dylech weld cofnodion manwl o'r DPP a gyflawnwyd. Rhaid i'r cofnodion hyn gynnwys:

- y dull DPP
- disgrifiad o'r pwnc a sut yr oedd yn ymwneud â'u gwaith;
- y dyddiadau pan gyflawnwyd y gweithgarwch;
- nifer yr oriau (gan gynnwys nifer yr oriau paratoi); ac
- adnabod rhan y Cod sydd fwyaf perthnasol i'r gweithgarwch.

Rydym wedi darparu templed y gall y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio ei ddefnyddio er mwyn cofnodi'r wybodaeth hon.

Os bydd gennych chi unrhyw amheuon ynghylch a yw gweithgarwch DPP penodol yn gyfranogol neu'n berthnasol i waith y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio, dylech ofyn iddynt am esboniad.

Os bydd gennych chi unrhyw amheuon ynghylch a yw gweithgarwch DPP yn gyfranogol neu'n berthnasol i waith y nyrs neu'r fydwraig, dylech ofyn iddynt am esboniad.



# Adborth sy'n ymwneud â gwaith: y gofyniad

Rhaid bod nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio wedi sicrhau pum darn o adborth sy'n ymwneud â'u gwaith yn ystod y dair blynedd ers yr adnewyddwyd eu cofrestriad y tro diwethaf neu ers iddynt ymuno â'r gofrestr.

# Adborth sy'n ymwneud â gwaith: yr hyn y bydd angen i chi ei archwilio

Dylech deimlo'n fodlon bod y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio wedi sicrhau pum darn o adborth sy'n ymwneud â'u gwaith.

Gellir cael adborth gan amrediad o ffynonellau, gan gynnwys yn uniongyrchol gan gleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, myfyrwyr a chydweithwyr. Gellir ei gael hefyd trwy adolygu cwynion, adroddiadau perfformiad tîm, adolygiadau digwyddiadau difrifol ac adborth a gawsant yn ystod eu harfarniad blynyddol. Gall yr adborth fod yn gadarnhaol neu'n adborth adeiladol, a gellir ei ddefnyddio ar sail gwaith yr unigolyn neu waith eu tîm neu eu huned.

Rydym wedi darparu templed y gall y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio ei ddefnyddio i gofnodi eu hadborth. Er yr argymhellwn bod nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn gwneud nodyn o'r adborth y maent wedi'i gael, nid yw hyn yn orfodol. Efallai y bydd rhywfaint o'r adborth wedi bod ar lafar, ac efallai na fydd y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio wedi ysgrifennu tystiolaeth o hyn, ond dylent fod yn gallu rhoi cyfrif ohono.

# Adroddiadau myfyriol ysgrifenedig: y gofyniad

Rhaid bod nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio wedi paratoi pum adroddiad myfyriol ysgrifenedig yn ystod y cyfnod o dair blynedd ers yr adnewyddwyd eu cofrestriad y tro diwethaf neu ers iddynt ymuno â'r gofrestr. Rhaid cofnodi'r adroddiadau myfyriol hyn ar ffurflen adroddiadau myfyriol CNB ac mae'n rhaid iddynt gyfeirio at:

- achos o'u DPP; a/neu
- ddarn o adborth yn ymwneud â'u gwaith y maent wedi'i gael; a/neu
- ddigwyddiad neu brofiad yn eu gwaith proffesiynol eu hunain a sut y mae hyn yn berthnasol i'r Cod.

# Adroddiadau myfyriol ysgrifenedig: yr hyn y bydd agen i chi ei archwilio

Dylech weld y pum adroddiad myfyriol ysgrifenedig y mae'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio wedi eu paratoi am eu DPP a/neu eu hadborth sy'n ymwneud â'u gwaith a/neu ddigwyddiad neu brofiad yn eu gwaith a sut y mae hyn yn berthnasol i'r Cod.

Mae angen i adroddiadau myfyriol gynnwys yr hyn y mae'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio wedi'i ddysgu o'r gweithgarwch DPP, yr adborth, y digwyddiad neu'r profiad yn eu gwaith, sut y maent wedi newid neu wella eu gwaith o ganlyniad, a sut y mae'n berthnasol i'r Cod.

Rydym wedi darparu ffurflen CNB y mae'n rhaid i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio ei defnyddio er mwyn cofnodi eu hadroddiadau myfyriol.

Nid ydych yn barnu ansawdd yr adroddiad. Rydych yn gwneud penderfyniad ynghylch a fodlonwyd y gofynion trwy bennu a yw'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio wedi darparu tystiolaeth sy'n dangos yr hyn a ddysgont o'r gweithgarwch DPP, yr adborth, y digwyddiad neu'r profiad yn eu gwaith, sut y maent wedi newid neu wella eu gwaith o ganlyniad, a sut y mae'n berthnasol i'r Cod. Mae adroddiadau myfyriol yn unigol i'r cofrestrai a bydd eu hyd, eu manylder a'u harddull ysgrifennu yn amrywio.

## Trafodaeth fyfyriol: y gofyniad

Rhaid bod nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio wedi cael trafodaeth fyfyriol gydag unigolyn arall sydd ar gofrestr CNB, a oedd yn ystyried eu pum adroddiad myfyriol ysgrifenedig am eu DPP a/neu adborth sy'n ymwneud â'u gwaith a/neu ddigwyddiad neu brofiad yn eu gwaith a sut y mae hyn yn berthnasol i'r Cod.

Rhaid iddynt sicrhau bod eu partner trafodaeth fyfyriol yn llofnodi'r ffurflen gymeradwy gan gofnodi eu henw, eu Pin CNB, eu cyfeiriad e-bost, eu cyfeiriad proffesiynol gan gynnwys eu cod post a'u rhif cyswllt, yn ogystal â'r dyddiad pan gawsant y drafodaeth.

## Trafodaeth fyfyriol: yr hyn y bydd angen i chi ei archwilio

Dylech weld ffurflen wedi'i llenwi a'i llofnodi sy'n dangos bod y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio wedi trafod eu hadroddiadau myfyrio gydag unigolyn arall sydd ar gofrestr CNB. Rydym wedi darparu ffurflen trafodaeth fyfyriol y mae'n rhaid iddi gael ei llofnodi ar ôl y drafodaeth gan y partner yn y drafodaeth fyfyriol sydd wedi cofrestru gyda CNB.

Os ydych chi'n nyrs, yn fydwraig neu'n gydymaith nyrsio sydd wedi cofrestru gyda CNB, gall y drafodaeth hon ddigwydd fel rhan o'ch trafodaeth sy'n rhoi cadarnhad gyda'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio. Bydd angen i chi lenwi a llofnodi'r ffurflen trafodaeth fyfyriol, yn ogystal â'r ffurflen gadarnhau. Rydym wedi darparu taflen arweiniad i'r rhai sy'n cymryd rhan mewn trafodaeth fyfyriol ar ein gwefan seff **revalidation.nmc.org.uk/download-resources**.

## Cysylltu â chi er mwyn cael gwybodaeth bellach

Bob blwyddyn, byddwn yn dewis sampl o nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio er mwyn iddynt ddarparu gwybodaeth bellach i ni er mwyn dilysu'r datganiadau a wnaethant fel rhan o'u cais ailddilysu.

Nid yw cais o'r fath yn golygu bod unrhyw bryderon am eu cais, a gallant barhau i weithio wrth i ni adolygu'r wybodaeth y byddant yn ei darparu.

Fel rhan o'r broses hon, byddwn yn cysylltu â chi er mwyn dilysu eich bod wedi rhoi eu cadarnhad iddynt, gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost yr ydych chi wedi'i roi i'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio ar y ffurflen cadarnhad.[8] A fyddech gystal ag ymateb erbyn y dyddiad y gofynnwyd i chi ymateb erbyn;  os na fyddwch yn ymateb i'n cais i ddilysu, efallai y byddwch yn peryglu cofrestriad y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio.

# FFURFLEN CADARNHAD

Rhaid i chi ddefnyddio'r ffurflen hon er mwyn cofnodi'ch cadarnhad.

**I'w llenwi gan y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio:**

| | |
|---|---|
| **Enw:** | |
| **Pin CNB:** | |
| **Dyddiad yr adnewyddwyd eich cofrestriad y tro diwethaf neu'r dyddiad ymuno â'r gofrestr:** | |

**Rydw i wedi cael cadarnhad gan (dewiswch fel sy'n berthnasol):**

- ☐ Rheolwr llinell sy'n nyrs, yn fydwraig neu'n gydymaith nyrsio ac sydd wedi cofrestru gyda CNB hefyd
- ☐ Rheolwr llinell nad yw'n nyrs, yn fydwraig neu'n gydymaith nyrsio sydd wedi cofrestru gyda CNB
- ☐ Nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio arall sydd wedi cofrestru gyda CNB
- ☐ Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol rheoledig
- ☐ Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol rheoledig o wlad dramor
- ☐ Gweithiwr proffesiynol arall yn unol ag offeryn cadarnhau ar-lein CNB

**I'w lenwi gan y cadarnhawr:**

| | |
|---|---|
| **Enw:** | |
| **Teitl:** | |
| **Cyfeiriad e-bost:** | |
| **Cyfeiriad proffesiynol gan gynnwys y cod post:** | |
| **Rhif cysylltu:** | |
| **Dyddiad y drafodaeth rhoi cadarnhad:** | |

**Os ydych yn nyrs, yn fydwraig neu'n gydymaith nyrsio sydd wedi cofrestru gyda CNB, a fyddech gystal â darparu:**

| |
|---|
| **Pin CNB:** |

**Os ydych yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol rheoledig, a fyddech gystal â darparu:**

| |
|---|
| **Proffesiwn:** |
| **Rhif cofrestru ar gyfer y corff rheoliadol:** |

**Os ydych yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol o wlad dramor, a fyddech gystal â darparu:**

| |
|---|
| **Y wlad yr ydych yn gweithio ynddi:** |
| **Proffesiwn:** |
| **Rhif cofrestru ar gyfer y corff rheoliadol:** |

**Os ydych yn weithiwr proffesiynol arall, a fyddech gystal â darparu:**

| |
|---|
| **Enw'r corff rheoliadol:** |
| **Rhif cofrestru ar gyfer y corff rheoliadol:** |

# Rhestr gyfeirio er mwyn cadarnhau'r gofynion ailddilysu

## Oriau gwaith

- [ ] Rydych chi wedi gweld tystiolaeth ysgrifenedig sy'n eich bodloni chi bod y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio wedi treulio isafswm yr oriau sy'n ofynnol ar gyfer eu cofrestriad yn gweithio.

## Datblygiad proffesiynol parhaus

- [ ] Rydych chi wedi gweld tystiolaeth ysgrifenedig sy'n eich bodloni chi bod y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio wedi cyflawni gwerth 35 awr o DPP sy'n berthnasol i'w gwaith fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio
- [ ] Rydych chi wedi gweld tystiolaeth bod o leiaf 20 o'r 35 awr yn cynnwys dysgu paratoadol sy'n berthnasol i'w gwaith fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio.
- [ ] Rydych chi wedi gweld cofnodion manwl o'r DPP a gyflawnwyd.

## Adborth sy'n ymwneud â'u gwaith

☐ Rydych chi'n fodlon bod y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio wedi sicrhau pum darn o adborth sy'n ymwneud â'u gwaith..

## Adroddiadau myfyriol ysgrifenedig

☐ Rydych chi wedi gweld pum adroddiad myfyriol ysgrifenedig am DPP y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio a/neu adborth sy'n ymwneud â'u gwaith a/neu ddigwyddiad neu brofiad yn eu gwaith a sut y mae hyn yn ymwneud â'r Cod, wedi'i gofnodi ar ffurflen CNB.

## Trafodaeth fyfyriol

☐ Rydych chi wedi gweld ffurflen wedi'i llenwi a'i llofnodi sy'n dangos bod y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio wedi trafod eu hadroddiadau myfyriol gyda nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio arall sydd wedi cofrestru gyda CNB (neu rydych chi yn nyrs, yn fydwraig neu'n gydymaith nyrsio sydd wedi cofrestru gyda CNB ac sydd wedi trafod y rhain gyda'r nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio eich hun).

| |
|---|
| **Rydw i'n cadarnhau fy mod i wedi darllen y Wybodaeth i gadarnhawyr, a bod y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio a enwir uchod ac sydd wedi cofrestru gyda CNB wedi dangos i mi eu bod wedi bodloni holl ofynion ailddilysu CNB a restrir uchod yn ystod y dair blynedd ers yr adnewyddwyd eu cofrestriad y tro diwethaf neu ers iddynt ymuno â'r gofrestr fel y nodir yn y Wybodaeth i gadarnhawyr.**<br><br>**Rydw i'n cytuno y gall CNB gysylltu â mi er mwyn i mi ddarparu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen at ddibenion dilysu. Os na fyddaf yn ymateb i gais am wybodaeth ddilysu, deallaf y gallwn beryglu cofrestriad y nyrs, y fydwraig neu'r cydymaith nyrsio.** |
| **Llofnod:** |
| **Dyddiad:** |

# ÔL-NODION

[1] Mae cofrestriad triphlyg ar gyfer nyrs, bydwraig a chydymaith nyrsio yn bosibl hefyd; byddai hyn yn gofyn am 1,350 awr o waith.

[2] Byddwn yn gwneud addasiadau i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio nad ydynt yn gallu troi at CNB Ar-lein, er enghraifft oherwydd anabledd.

[3] Dylid wastad cynnal trafodaethau am gleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr neu gydweithwyr nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio mewn ffordd ddienw er mwyn diogelu cyfrinachedd. Mae'r adran ynghylch gwybodaeth anadnabyddadwy yn *Sut i ddilysu gyda CNB* yn darparu manylion pellach.

[4] Mae'n ofyniad dan baragraff 23 y Cod y nodir eich Pin CNB pan wneir cais rhesymol amdano. Mae nodi eich Pin at ddibenion ailddilysu yn gais rhesymol.

[5] Er enghraifft, nyrs sy'n cael hyfforddiant bydwraig ac sy'n sicrhau ail gofrestriad fel bydwraig

[6] Mae cofrestriad triphlyg ar gyfer nyrs, bydwraig a chydymaith nyrsio yn bosibl hefyd; byddai hyn yn gofyn am 1,350 awr o waith.

[7] Disgwyliwn i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio adolygu'r safonau medrusrwydd mwyaf diweddar sy'n berthnasol i'w cofrestriad, gan fyfyrio am y ffordd y mae cwmpas eu gwaith yn berthnasol i'r safonau a nodi eu hanghenion hyfforddiant.

[8] Cysylltwch â ni os bydd gofyn i chi gael addasiad rhesymol o ran y ffordd y byddwn yn cysylltu â chi.



23 Portland Place, London W1B 1PZ
**www.nmc.org.uk**

The nursing and midwifery regulator for England, Wales, Scotland and Northern Ireland
Registered charity in England and Wales (1091434) and in Scotland (SC038362)

NMC Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth